Wrth edrych ymlaen, bydd y Cyngor yn parhau i weithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â phryderon diogelwch, cyflawni ffrydiau gwaith sy'n weddill, a sicrhau bod menywod a merched yn gallu cymryd rhan yn llawn ac yn hyderus ym mhob agwedd ar fywyd Caerdydd.

Gwella Hygyrchedd Gwasanaethau a Mannau'r Ddinas

Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran gwella hygyrchedd gwasanaethau a mannau, gyda datblygiadau mewn cynhwysiant digidol, ymgysylltu â'r gymuned, a chynllunio dinas gynhwysol. Bydd y Strategaeth Ddigidol newydd, sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd ac y bwriedir iddi fynd i'r Cabinet yn 2025, yn rhoi "Dinasyddion a Chymunedau" wrth ei hanfod, gan gynnig cynllun ymgysylltu digidol, panel profi defnyddwyr, gwell cydymffurfiaeth hygyrchedd, a chyflawni yn erbyn y Siarter Cynhwysiant Digidol. Tynnodd canfyddiadau arolwg Holi Caerdydd 2024 sylw at bwysigrwydd y gwaith hwn, gyda dau o bob pump o drigolion (43.9%) yn cytuno bod cysylltu â'r Cyngor yn syml, gyda boddhad is ymhlith pobl anabl a thrigolion hŷn, yn aml yn gysylltiedig â phroblemau gyda mynediad i'r ffôn, sianeli digidol, ac amseroedd ymateb.

Mae ymgysylltu â'r gymuned wedi'i gryfhau drwy gynllun micrograntiau Partneriaeth Alcohol Cymunedol Caerdydd ar gyfer gweithgareddau di-alcohol, a gyfrannodd at enwi Caerdydd fel Partneriaeth Alcohol Gymunedol y Flwyddyn yn 2024. Mae mynediad i gyfleusterau cyhoeddus yn cael ei ehangu drwy'r dull Ysgolion Bro, gyda threfniadau gweithredol yn cael eu cwblhau a chynlluniau newydd yn cael eu comisiynu i'w cyflawni. Mae hygyrchedd hefyd yn cael ei ymgorffori yn amgylchedd ffisegol y ddinas trwy ddatblygiad parhaus y Cynllun Datblygu Lleol Newydd, sydd wedi'i lunio gan ymgysylltiad wedi'i dargedu - gan gynnwys deunyddiau sy'n dda i blant ac allgymorth i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol - ac sy'n ymgorffori egwyddorion dylunio cynhwysol sy'n sensitif i rywedd. Bydd y Cynllun yn cael ei archwilio gan yr Arolygydd Cynllunio annibynnol yn 2025/26. Mae gwelliannau i drafnidiaeth gyhoeddus yn cael eu symud ymlaen drwy'r Strategaeth Blaenoriaeth Bysiau a Chledrau Croesi Caerdydd, er bod heriau'n parhau i fod ynglŷn â chyllid ac integreiddio cynlluniau Metro yn y dyfodol.

Wrth edrych ymlaen, bydd y ffocws ar gwblhau a chyflawni'r Strategaeth Ddigidol, ymgorffori dylunio cynhwysol ymhellach, ehangu ymgysylltu hygyrch, a mynd i'r afael â'r rhwystrau a nodwyd drwy adborth preswylwyr i sicrhau bod gwasanaethau a mannau Caerdydd yn groesawgar ac yn ddefnyddiol i bawb.



AMCAN CYDRADDOLDEB 3

CAERDYDD GYNHWYSOL:

Byddwn yn gwneud Caerdydd yn ddinas lle mae gwahaniaethau'n cael eu deall a'u dathlu, a lle mae pob cymuned yn teimlo ei bod yn perthyn.

OAsesiad Cyffredinol

Mae Caerdydd yn parhau i wneud cynnydd ystyrlon tuag at ddod yn ddinas lle mae pobl o bob cymuned yn teimlo eu bod yn cael eu croesawu, eu cynnwys a'u gwerthfawrogi. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae gwaith i hyrwyddo cydlyniant cymunedol, mynd i'r afael â throseddau casineb, cefnogi ffoaduriaid a cheiswyr lloches, a dathlu amrywiaeth wedi'i gryfhau trwy bartneriaethau ledled y ddinas. Mae'r cydweithrediadau hyn wedi darparu ymgyrchoedd ymwybyddiaeth, cyllid cymunedol, a gwasanaethau cymorth wedi'u teilwra, gan helpu i ddod â phobl at ei gilydd a gwella dealltwriaeth rhwng gwahanol grwpiau.

Mae heriau yn parhau, yn enwedig wrth ateb y galw am dai a gwasanaethau i ffoaduriaid, rheoli llwythi gwaith staff uchel, a chynnal darpariaeth yn wyneb cyllid tymor byr. Bydd mynd i'r afael â'r materion hyn yn hanfodol i gynnal momentwm. Wrth edrych ymlaen, bydd buddsoddiad parhaus a chydlynu agosach rhwng gwasanaethau yn helpu i sicrhau bod cynnydd nid yn unig yn cael ei gynnal ond ei ddyfnhau, gan greu dinas fwy cydlynol, cynhwysol a gwydn i bawb.

Meysydd Cynnydd

- Lansio Cronfa Cydlyniant Cymunedol 2024/25 i gefnogi prosiectau cymunedol ar lawr gwlad.
- Cefnogaeth ar gyfer Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb ac ymgyrchoedd cysylltiedig i godi ymwybyddiaeth am droseddau casineb a sut i'w riportio.
- Ariannu digwyddiadau a oedd yn tynnu sylw at Hanes Pobl Dduon a gwrth-hiliaeth, gan annog addysg a chynhwysiant, gan gynnwys Darlith Betty Campbell.
- Cynnal cynhadledd gymunedol gyda thua 90 o fynychwyr i hyrwyddo cynhwysiant a pherthyn.
- Mae cyfranogiad gweithredol mewn Dinasoedd Cynhwysol yn gweithio ar gyfer ffoaduriaid a cheiswyr lloches.
- Cryfhau cynrychiolaeth LHDTTC+ trwy rwydweithiau staff ac ymgyrchoedd ymwybyddiaeth.
- Hyrwyddo dwyieithrwydd trwy arwyddion a gwelliannau i ddarparu gwasanaethau.



Meysydd Her a Risg

- Pwysau parhaus ar gynlluniau ailsefydlu ffoaduriaid oherwydd tai ac adnoddau cyfyngedig.
- Mae galwadau rheoli achosion yn parhau i fod yn uchel, yn enwedig ar gyfer cymorth cymhleth i geiswyr lloches.
- Gallai newidiadau mewn polisi cenedlaethol (e.e. deddfwriaeth lloches neu doriadau cyllid) amharu ar gyflenwi lleol.
- Gall rhwystrau iaith, yn enwedig i newydd-ddyfodiaid, atal pobl rhag cymryd rhan lawn ym mywyd y ddinas.
- Mae diffyg cyllid hirdymor yn ei gwneud hi'n anoddach cynllunio a chyflawni prosiectau cymorth cymunedol parhaus.

Hyrwyddo Cydlyniant Cymunedol

Mae cynnydd wedi'i wneud wrth hyrwyddo cydlyniant cymunedol trwy gyfuniad o gyllid grant, ymgyrchoedd ymwybyddiaeth, digwyddiadau, a gwaith partneriaeth. Yn 2024/25, denodd y Gronfa Gydlyniant dros 100 o geisiadau gan sefydliadau ar lawr gwlad, gyda 23 o brosiectau wedi'u dewis i gryfhau perthnasoedd a chysylltiadau ar draws cymunedau. Daeth mentrau proffil uchel fel Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb a'r Mis Cydlyniant â phartneriaid at ei gilydd i godi ymwybyddiaeth, darparu hyfforddiant, ac ymateb i dueddiadau a nodwyd trwy fonitro troseddau casineb wythnosol. Ehangodd Darlith Betty Campbell i raglen ehangach o ddigwyddiadau addysgol a chymunedol, gan gryfhau cysylltiadau rhyngwladol a deialog ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chyfiawnder cymdeithasol. Ar ben hynny, parhaodd digwyddiadau partneriaeth fel y Diwrnod Gyda'n Gilydd a Mwy yn Gyffredin i feithrin cysylltiadau ystyrlon, gyda gweithgareddau lleol yn cael eu harddangos yn genedlaethol. Yn gyfan gwbl, roedd gweithgareddau cydlyniant yn ymgysylltu â dros 27,000 o bobl ledled y ddinas.

Mae'r arolwg Holi Caerdydd, fodd bynnag, yn dangos bod canfyddiadau o gydlyniant cymdogaeth wedi amrywio ers 2020, pan oedd 67.2% o drigolion yn cytuno bod eu cymdogaeth yn le ble mae pobl yn cyd-fynd yn dda gyda'i gilydd ac yn helpu ei gilydd. Yn dilyn cwymp sydyn yn 2022, mae'r lefelau wedi adfer yn rhannol ond yn parhau i fod yn is na chyn y pandemig, gan sefyll ar 59.7% yn 2024. Mae'r bwlch rhwng cymunedau hefyd yn parhau i fod yn sylweddol, gyda 43.2% yn cytuno yn yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf o'i gymharu â 73.2% yn yr ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf. Wrth edrych ymlaen, bydd y ffocws ar gynnal momentwm trwy adeiladu ar brosiectau llawr gwlad llwyddiannus, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau parhaus mewn canfyddiadau o gydlyniant cymunedol, a pharhau i weithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â throseddau casineb a hyrwyddo cymdogaethau cynhwysol, cysylltiedig ledled y ddinas.

Cefnogi Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches

Mae cynnydd parhaus wedi'i wneud wrth ddarparu dull cydgysylltiedig ledled y ddinas o gefnogi ffoaduriaid a cheiswyr lloches, gyda gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar dai, addysg, iechyd ac integreiddio cymunedol. Mae'r Tîm Cymorth Ffoaduriaid yn parhau i gynorthwyo dinasyddion Syria ac Afghanistan sydd wedi'u hailsefydlu, paratoi ar gyfer aelwydydd Afghanistan newydd o dan y Rhaglen Ailsefydlu Afghanistan, ac ymateb i newidiadau polisi sy'n effeithio ar ddyfodiaid o Wcráin, megis cyflwyno e-fisas digidol a thaliadau noddwyr llai. Mae'r Tîm Cymorth Lloches wedi cryfhau perthnasoedd â landlordiaid i helpu ffoaduriaid sydd newydd gael caniatâd, yn enwedig cleientiaid sengl, i symud o lety dros dro i'r sector rhentu preifat, er bod y galw am dai yn parhau i fod yn uchel. Mae rheoli achos wedi'i deilwra ar gyfer Plant Digwmni sy'n Ceisio Lloches (PDCLI) yn cefnogi mynediad at gyngor cyfreithiol, gofal iechyd ac addysg, gyda recriwtio gofawyr maeth wedi'i dargedu i ddiwallu anghenion diwylliannol ac iaith penodol. Yn ogystal, mae rhwydwaith Ysgolion Noddfa bellach yn cynnwys dros 50 o leoliadau sydd naill ai wedi'u cydnabod neu sy'n gweithio tuag at gydnabyddiaeth, gyda chefnogaeth cysylltiadau cryf â grwpiau cymunedol a darpariaeth addysg bwrpasol ar gyfer PDCLI.

Fodd bynnag, mae pwysau ar y cyflenwad tai, effaith newidiadau polisi cenedlaethol, a'r her o gynnal capasiti gwasanaeth cyson yn peryglu arafu o ran y cynnydd. Ar ben hynny, mae oedi wrth ehangu menter Llyfrgelloedd Noddfa yn golygu nad yw'r llinyn hwn o waith wedi symud ymlaen tuag at achrediad ledled y ddinas. Wrth edrych ymlaen, bydd y ffocws ar sicrhau llwybrau tai ychwanegol, ymgorffori'r model Ysgolion Noddfa yn ehangach, datblygu rhwydwaith Llyfrgelloedd Noddfa, a sicrhau bod ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn derbyn cefnogaeth amserol, gydgyssylltiedig i ailadeiladu eu bywydau a chymryd rhan lawn ym mywyd y ddinas.

Dod yn Gaerdydd Wrth-hiliol

Mae cynnydd yn parhau tuag at gryfhau safle Caerdydd fel dinas gwrth-hiliol, gyda chamau gweithredu yn cael eu cyflawni yn unol â'r ymrwymadau gwrth-hiliol a nodir yn Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Cyngor 2024-28. Yn 2024, ail-ymgynullodd y Tasglu Cydraddoldeb Hiliol i adolygu Adroddiad Cynnydd Diwedd Blwyddyn 2023/24, gan asesu'r camau a gymerwyd gan bartneriaid gwasanaeth cyhoeddus mewn ymateb i'w argymhellion. Croesawodd y Tasglu'r cynnydd a wnaed, ymroddiad swyddogion, ac integreiddio blaenoriaethau gwrth-hiliaeth i Fframwaith polisi'r Cyngor. Cydnabuodd Cadeirydd y Tasglu'r cynnydd rhagorol a wnaed ond tynnodd sylw hefyd at yr angen i ganolbwyntio ar bedair blaenoriaeth allweddol, ynghyd â sawl awgrym ymarferol, i gryfhau cydraddoldeb hiliol yng Nghaerdydd ymhellach, y mae ohonynt wedi'u hymgorffori yn y strategaeth hon.

Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo ar faterion treftadaeth sensitif, gan gynnwys dyfodol cerflun Syr Thomas Picton, gyda thrafodaethau parhaus rhwng y Cyngor a Cadw i sicrhau bod unrhyw benderfyniadau'n cael eu llywio gan ganllawiau cenedlaethol, asesiadau treftadaeth, ac ymgysylltu cymunedol ystyrlon. Wrth edrych ymlaen, y flaenoriaeth fydd cynnal momentwm drwy gyflawni'r camau gweithredu gwrth-hiliaeth yn llawn, cryfhau gweithio mewn partneriaeth, a pharhau â deialog agored â chymunedau i sicrhau bod ymagwedd Caerdydd at gydraddoldeb hiliol yn atebol ac yn drawsnewidiol.

Gwella Canlyniadau i Bobl LHDTC+

Mae'r Cyngor wedi cynnal ei Statws Aur Stonewall a'i safle fel 100 Cyflogwr Gorau Stonewall trwy gryfhau polisiau cynhwysol, ehangu hyfforddiant ac ymwybyddiaeth staff, grymuso Rhwydwaith Staff LHDTC+, a chynnal cefnogaeth arweinyddiaeth gref ar gyfer cydraddoldeb LHDTC+.


Mae'r Cyngor wedi cefnogi Pride Cymru yn 2024 a 2025, gan hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth trwy gyfranogiad staff, ymgysylltu â'r cyhoedd, ac ymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth o rywioldeb yn ddiweddarach mewn bywyd.

Mae gwaith partneriaeth wedi parhau drwy Fast Track Caerdydd a'r Fro i ddileu heintiau HIV newydd, lleihau stigma sy'n gysylltiedig â HIV, a gwella bywydau pobl sy'n byw â HIV. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae hyn wedi cynnwys cyflwyno pecynnau profi Heintiau a Drosglwyddir yn Rhywiol hygrych a chondomau am ddim mewn Hybiau a Llyfrgelloedd, cyflwyno ymgyrchoedd wedi'u targedu fel yr Wythnos Profi HIV a 'Are You PrEPped?', a lansio'r grŵp cymorth cymheiriaid misol 'Byw Gydag Ef' yn Hwb Llyfrgell Ganolog Caerdydd.

Dod yn Gaerdydd Ddwyieithog

Mae'r cynnydd yn parhau o ran cyflawni Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27 a chyfrannu at weledigaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru. Mae menter Cymraeg i Bawb Caerdydd Ddwyieithog wedi helpu i godi ymwybyddiaeth o addysg cyfrwng Cymraeg drwy ymgyrchoedd wedi'u targedu, gan gynnwys allgymorth i gymunedau lleiafrifoedd ethnig, gwybodaeth am ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol, a hysbysebu ledled y ddinas. Mae llwyddiant y peilot wedi arwain at gyllid gan Lywodraeth Cymru i gyflwyno'r dull gweithredu'n genedlaethol, gan gydnabod ei effaith ar gynyddu dealltwriaeth a defnydd. I gefnogi'r ymdrechion hyn, cwblhaodd 1,417 aelod o staff gyrsgau iaith Gymraeg yn 2024/25, gan ddod â'r cyfanswm i 4,775 ers 2022. Mae hyn yn cynrychioli 59% o'r gweithlu presennol - yn sylweddol uwch na'r targed gwreiddiol a osodwyd yn Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog i gynyddu cyfran y staff sydd wedi derbyn hyfforddiant Cymraeg i 50% erbyn 2027.

Ym mis Mehefin 2025, daeth ffair yrfaoedd Cymraeg Gyrfa Gymraeg â disgyblion Blwyddyn 12 o bob rhan o De Cymru ynghyd â chyflogwyr, colegau a phrifysgolion i arddangos cyfleoedd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth gan ddefnyddio'r Gymraeg. Mae data diweddar Arolwg Cenedlaethol Cymru yn dangos bod 11.7% o drigolion Caerdydd 16+ oed yn gallu siarad Cymraeg, gan danlinellu pwysigrwydd gweithredu parhaus i hyrwyddo a thyfu'r iaith yn lleol. Wrth edrych ymlaen, bydd y gwaith yn canolbwyntio ar gynnal cyflawniad Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog, ehangu Cymraeg i Bawb, a sicrhau bod sgiliau Gymraeg yn parhau i fod yn weladwy, yn cael eu gwerthfawrogi ac yn hygrych i bawb.



AMCAN CYDRADDOLDEB 4

CYNGOR SY’N ADLEWYRCHU EI GYMUNEDAU:

Byddwn yn gwneud Cyngor Caerdydd yn sefydliad mwy cynhwysol sy’n adlewyrchu amrywiaeth y bobl rydym yn eu gwasanaethu, a lle mae’r gweithwyr yn hyderus i fod yn nhw eu hunain ac yn cael eu grymuso i symud ymlaen.

Asesiad Cyffredinol

Mae Cyngor Caerdydd yn gwneud cynnydd amlwg wrth greu sefydliad sy'n adlewyrchu'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu, gan feithrin amgylchedd cynhwysol a chefnogol i bob gweithiwr. Mae'r Adroddiad Amrywiaeth Gweithwyr diweddaraf 2025 yn dangos bod 14.76 % o'r gweithlu yn uniaethu ag ethnigrwydd heblaw Gwyn Prydeinig, i fyny o 13.61 % yn 2024, tra bod menywod yn cynrychioli 69.26 % o'r gweithlu ac mae ganddynt gynrychiolaeth uwch na dynion ar draws y rhan fwyaf o raddau. Fodd bynnag, mae gweithwyr iau (5.86 % 16-24 oed) a gweithwyr anabl (2.75 %)² yn parhau i gael eu tangynrychioli, gan dynnu sylw at yr angen am weithredu pellach a pharhaus.

Roedd arolwg staff diweddaraf y Cyngor, a gwblhawyd ym mis Medi 2024, yn adlewyrchu ac yn ymgysylltu ac yn ysgogi'r gweithlu. Datgelodd canlyniadau'r arolwg fod gan staff Cyngor Caerdydd lefelau uchel o falchder yn eu gwaith, eu bod yn glir am eu cyfraniadau unigol at amcanion sefydliadol ac roedd ganddynt lefelau boddhad cryf gyda'r cymorth lles a gynigir. Yn nodedig, adroddodd menywod, gweithwyr LHDTC+, staff ethnig amrywiol, a gweithwyr anabl farn gadarnhaol uwch na'r cyfartaledd. Cefnogir hyn gan ganfyddiadau Asesiad Perfformiad y Panel, a ganmolodd "diwylliant sefydledig y Cyngor o gyfranogiad staff, wedi'i ategu gan fframwaith cadarn o rwydweithiau gweithwyr." Mae'r rhwydweithiau hyn yn chwarae rhan ganolog wrth hyrwyddo cynhwysiant, cynrychioli lleisiau gwahanol grwpiau staff, a llunio camau gweithredu wedi'u targedu ar draws y sefydliad.

Er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gyflogwr agored sy'n elwa o ddoniau pawb yn y ddinas, mae recriwtio wedi'i dargedu, allgymorth a datblygu llwybr gyrfa yn parhau i ganolbwyntio ar gymunedau amrywiol Caerdydd a meysydd blaenoriaeth fel ysgolion a gofal cymdeithasol, gyda chefnogaeth rhaglenni fel Caerdydd ar Waith i Chi. Fodd bynnag, mae angen cynnydd pellach i arallgyfeirio'r garfan uwch reolwyr ac arweinyddiaeth, gan adeiladu ar y gwaith i ddatblygu piblinell o arweinwyr y dyfodol. Wrth edrych ymlaen, bydd y ffocws yn parhau i fod ar ymgorffori arferion recriwtio a dilyniant cynhwysol, mynd i'r afael â bylchau cynrychiolaeth, a chynnal ymgysylltiad cryf â chymunedau amrywiol Caerdydd.

2 - Nodwch, fodd bynnag, nad oedd 36.15 % o weithwyr yn datgelu a oedd ganddynt anabledd yn Adroddiad Amrywiaeth Gweithwyr 2025

Meysydd Cynnydd

- Mae'r Cyngor wedi lansio ei ail raglen datblygu arweinyddiaeth i gefnogi datblygiad proffesiynol y gweithlu, gyda ffocws ar gefnogi Rhwydweithiau Gweithwyr y Cyngor.
- Mae Cyngor Caerdydd yn parhau i berfformio'n dda yn erbyn Awdurdodau Lleol eraill a sefydliadau Cymru mewn perthynas â'r bwlch rhwng y rhywiau a chyflog.
- Mae'r arolwg staff wedi datgelu diwylliant da ymhlith y gweithlu gyda chymau gweithredu clir wedi'u nodi o fewn Cynlluniau Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth i ymateb i faterion a nodwyd yn yr arolwg staff.
- Mae data'r gweithlu yn dangos bod gan 18.82 % o'r gweithlu corfforaethol sgiliau Cymraeg, cynnydd o 14.5 % yn 2022. Os bydd y llwybr presennol yn parhau, amcanestynnir y bydd cyfran y staff sydd â sgiliau Cymraeg yn cyrraedd 21.7 % erbyn 2027.
- Mae'r Cyngor wedi parhau i gefnogi ei Rhwydweithiau Cydraddoldeb Gweithwyr presennol, yn ogystal â datblygu grwpiau cymorth newydd, i arallgyfeirio'r cynnig sydd ar gael i staff, gan gynnwys grŵp llywio niwroamrywiaeth a grŵp cymorth canser. Mae gwaith hefyd wedi cynnwys ffyrdd o wella ymarfer a phrosesau i gefnogi'r rhai o grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli.
- Lansiwyd rôl llywodraethwr 'Tegwch, Amrywiaeth a Chynhwysiant' yn 2024. O ganlyniad, mae 72 o gyrff llywodraethu sy'n cynrychioli 78 o ysgolion wedi penodi llywodraethwr sy'n gyfrifol am Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, gan ddangos cynnydd cadarnhaol wrth gryfhau llywodraethu ynghylch cydraddoldeb.
- Mae gwaith i gefnogi sefydlu paneli recriwtio amrywiol yn cael ei gefnogi.
- Mae 46 % o ymgeiswyr misol i Gaerdydd ar Waith o gefndiroedd ethnig amrywiol.

Meysydd Her a Risg

- Llwyddodd y Cynllun Prentisiaid Corfforaethol i gyrraedd ei dargedau ar gyfer creu lleoliadau newydd, gan dynnu sylw at ei gryfder parhaus. Erbyn diwedd mis Mawrth 2025, roedd 153 o brentisiaid a hyfforddeion yn gweithio ar draws y Cyngor, gan ragori ar y targed cyffredinol o 150.
- Fodd bynnag, roedd pwysau ariannol yn cyfyngu ar nifer y lleoliadau prentisiaeth a hyfforddeion newydd yr oedd y Cyngor yn gallu creu yn ystod y flwyddyn. Ar draws y Cyngor yn ei gyfanrwydd, dim ond 64 lleoliad newydd a grëwyd yn erbyn targed o 100, gyda'r diffyg yn adlewyrchu nad oedd targedau unigol ar lefel cyfarwyddiaeth wedi'u cyflawni'n llawn.

- Mae angen cryfhau trefniadau goruchwyllo ar gyfer Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol ysgolion i sicrhau cydymffurfiaeth â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.
- Er bod cyfeiriad y teithio yn gadarnhaol, nid yw amrywiaeth y cyngor a'r gweithlu addysgu yn adlewyrchu demograffeg y ddinas na'r boblogaeth o ddisgyblion.
- Gall ansicrwydd sy'n ymwneud â pharhad Cyllid Ffyniant Gyffredin effeithio ar ddarparu gwasanaethau cyflogaeth effeithiol a gwerthfawr iawn, gan gynnwys gweithgareddau'r timau i mewn i'r gwaith.

Dod yn Gyflogwr o Ddewis ar gyfer yr Holl Breswylwyr

Mae Cyngor Caerdydd yn bwrw ymlaen â champau wedi'u targedu i gryfhau ei sefyllfa fel cyflogwr cynhwysol a sicrhau bod y gweithlu yn adlewyrchu'r ddinas y mae'n ei gwasanaethu'n well. Mae ymdrechion recriwtio ac allgymorth wedi canolbwyntio ar feysydd blaenoriaeth, yn enwedig ysgolion a gofal cymdeithasol, lle mae budd amlwg i ehangu cynrychiolaeth a gwella cadw. Mewn ysgolion, mae 70 bellach wedi penodi llywodraethwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, gyda hyfforddiant ac arweiniad yn cefnogi arferion recriwtio da ac yn tynnu sylw at bwysigrwydd ehangu cynrychiolaeth gymunedol ar gyffwrdd llywodraethu. Mewn gofal cymdeithasol, mae mewnwelediadau arolwg staff wedi llunio camau gweithredu wedi'u targedu i wella recriwtio a chadw, gan gynnwys cymorth wedi'i deilwra i weithwyr cymdeithasol ethnig amrywiol, fframwaith ar gyfer integreiddio staff cymwys dramor, a hyfforddiant cymhwysedd diwylliannol i wella gwasanaethau ar gyfer cymunedau amrywiol.

Mae'r gwaith i ddenu a datblygu talent o grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli wedi'i ehangu trwy weithgareddau recriwtio wedi'u targedu a llwybrau mynediad newydd. Mae Caerdydd ar Waith, gwasanaeth recriwtio mewnol y Cyngor, wedi lansio Caerdydd ar Waith i Chi i greu cyfleoedd lleoli â chymhorthdal ar gyfer grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli, tra bod ymgysylltu cymunedol ehangach yn helpu i ddenu ymgeiswyr ethnig amrywiol i rolau, yn enwedig ym maes gofal cymdeithasol. Mae Adroddiad Amrywiaeth Gweithwyr diweddaraf y Cyngor (2025) yn dangos bod 14.76 % o'r gweithlu yn uniaethu ag ethnigrwydd heblaw Gwyn Prydeinig, i fyny o 13.6 % yn 2024. Mae cynrychiolaeth gweithwyr iau (5.86 % 16-24 oed) a gweithwyr anabl (2.75 %)³ hefyd yn parhau i fod yn isel, gan dynnu sylw at yr angen i ehangu strategaethau atyniad a dileu mynediad rhwystr i'r grwpiau hyn.

Mae heriau'n parhau i fod o ran cynnal momentwm recriwtio mewn marchnad lafur gystadleuol, gan ei gwneud hi'n hanfodol ymgorffori'r dulliau hyn, mynd i'r afael â bylchau amrywiaeth parhaus, a chynnal ymgysylltiad hirdymor â chymunedau i sicrhau bod Cyngor Caerdydd yn parhau i fod yn gyflogwr o ddewis i bawb.

3 - Nodwch, fodd bynnag, nad oedd 36.15 % o weithwyr yn datgelu a oedd ganddynt anabledd yn Adroddiad Amrywiaeth Gweithwyr 2025



Cefnogi Datblygiad Gweithlu Mwy Amrywiol

Mae Cyngor Caerdydd yn parhau i gryfhau llwybrau datblygu gyrfa a chael gwared ar rwystrau i ddilyniant i grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli ar draws ei weithlu. Mae'r rhaglenni allweddol yn cynnwys cynnig datblygu arweinyddiaeth newydd ar gyfer rheolwyr presennol ac uchelgeisiol, gyda chymorth targedig i grwpiau o staff heb gynrychiolaeth ddigonol, a chynllun Mentora Gwrthdro peilot. Mae adborth bellach yn cael ei gasglu i lywio cyflwyniad ehangach yn 2025/26. Mae ymgysylltu â gweithwyr yn parhau i fod yn flaenoriaeth, gyda chynllunio gweithredu yn dilyn adborth arolwg staff ac ymgynghori ar werthoedd ac ymddygiadau sefydliadol wedi'u hadnewyddu. Mae darpariaeth Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill a chysiau Saesneg sgwrsio hefyd yn helpu staff i oresgyn rhwystrau iaith i ddilyniant gyrfa.

Mae cynnydd hefyd yn cael ei wneud o ran monitro a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau cyflog ac adeiladu capasiti Cymraeg. Mae canran y staff sydd â sgiliau Cymraeg wedi cynyddu o 14.5 % yn 2022 i 18.82 % yn 2024/25, gyda'r Cyngor ar y trywydd iawn i gyrraedd ei darged o 20 % erbyn 2027. Mae adroddiadau blynyddol ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ac ar sail hil yn dangos bod Cyngor Caerdydd yn parhau i berfformio'n dda yn erbyn awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, er bod y bylchau cyflog cymedrig a chanolrifol rhwng gweithwyr gwyn a gweithwyr o ethnigrwydd eraill yn parhau i fod yn 18.70 % a 15.07 % yn y drefn honno.

Mae heriau hefyd yn parhau i fod o ran cynyddu cyfran y staff ethnig amrywiol mewn graddau uwch - ar hyn o bryd 10.56 % ar Radd 8-10 a 6.84 % yn RhG+ - ac wrth gynnal momentwm mentrau newydd hyd at eu gweithredu'n llawn. Bydd y ffocws yn parhau i fod ar ymgorffori datblygiad arweinyddiaeth, ehangu mynediad at hyfforddiant sgiliau, a mynd i'r afael â bylchau cynrychiolaeth ar lefelau uchaf y sefydliad.

Cefnogi ein Rhwydweithiau Gweithwyr

Mae Cyngor Caerdydd yn parhau i gryfhau ac arallgyfeirio ei Rhwydweithiau Gweithwyr, gan sicrhau eu bod yn parhau i fod yn sbardun allweddol o ran cynhwysiant ac ymgysylltu â staff. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae cyfleoedd aelodaeth wedi cael eu hehangu trwy lansio grwpiau newydd, gan gynnwys grŵp llywio niwroamrywiaeth a grŵp cymorth canser, gan ategu'r cynnig presennol. Mae rhwydweithiau wedi hyrwyddo digwyddiadau pwrpasol ar draws y sefydliad, gan greu mannau diogel i weithwyr rannu profiadau, cysylltu â chydweithwyr, a dod â'u hunain cyfan i'r gwaith.

Mae cydweithredu parhaus rhwng tîm Adnoddau Dynol, Datblygu Sefydliadol y Cyngor a'r rhwydweithiau yn helpu i ymgorffori arferion cynhwysol ar draws y sefydliad. Defnyddir sesiynau ymgysylltu misol i nodi cyfleoedd i wella recriwtio a chadw grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli, tra bod canllawiau a pholisïau yn cael eu datblygu a'u diweddarau gyda chynhwysiant fel egwyddor ganolog. Wrth edrych ymlaen, bydd y ffocws yn parhau i fod ar gynyddu aelodaeth, arallgyfeirio'r ystod o gymorth sydd ar gael, a sicrhau bod y rhwydweithiau yn chwarae rhan weithredol wrth lunio diwylliant yn y gweithle, lle mae pob gweithiwr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi.

AMCAN CYDRADDOLDEB 5

CYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT WRTH WRAIDD Y SEFYDLIAD:

Byddwn yn sicrhau bod prosesau craidd Cyngor Caerdydd yn cefnogi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.



Asesiad Cyffredinol

Ym mlwyddyn gyntaf y strategaeth, mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth gryfhau'r prosesau craidd sy'n sail i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Mae canllawiau wedi'u diweddarau, fframwaith hyfforddi wedi'i adnewyddu, a chyflwyno modiwlau hyfforddi gorfodol newydd ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant i'r holl staff, ac Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer rheolwyr gweithredol (gyda chydymffurfiaeth o 96.69%) wedi atgyfnerthu gwerthoedd sefydliadol a dealltwriaeth o ddyletswyddau statudol. Mae trefniadau goruchwyllo gwell bellach yn helpu i sicrhau bod Asesiadau Effaith Cydraddoldeb, Asesiadau Effaith Hawliau Plant, ac Asesiadau Effaith ar y Gymraeg yn cael eu cwblhau pan fo angen ac yn llywio'r broses o wneud penderfyniadau. Bydd cynnal amseroldeb ac ansawdd yr asesiadau hyn, trwy fonitro gwell a rhaglen hyfforddi gryfach, yn hanfodol i ymgorffori ystyriaethau cydraddoldeb ym mhob cam o ddatblygu polisi.

Mae'r Strategaeth Cyfranogiad wedi gwella ymgysylltiad â grwpiau na chlywir eu barn yn aml ac wedi cryfhau monitro demograffig mewn ymgynghoriadau mawr. Mae gwaith i wella casglu, dadansoddi ac adrodd data cydraddoldeb defnyddwyr gwasanaeth ar gam cynnar, ac yn parhau i fod yn flaenoriaeth tymor hwy, gyda gwelliannau yn y dyfodol yn allweddol er mwyn nodi bylchau a llunio gwasanaethau mwy cynhwysol. Roedd cymeradwyo'r Polisi Cymdeithasol-Gyfrifol newydd ym mis Gorffennaf 2025 hefyd yn gam sylweddol wrth ymgorffori buddion gwaith teg, cyflogaeth foesebol, a lles cymunedol o fewn prosesau comisiynu a chaffael.

Gyda'i gilydd, mae'r datblygiadau hyn yn darparu sylfaen gryfach ar gyfer sicrhau bod effaith dewisiadau polisi ar wahanol grwpiau yn cael ei ystyried yn systematig. Bydd ffocws parhaus ar asesiadau effaith amserol, o ansawdd uchel, data defnyddwyr gwasanaeth gwell, a gweithredu'r polisi caffael newydd yn llawn yn allweddol i gynnal momentwm yn y blynyddoedd i ddod.

Meysydd Cynnydd

- Mae prosesau Asesu Effaith wedi'u hadolygu a'u diweddarau, gyda ffurflen Asesiad Effaith Sengl wedi'i chyflwyno a chanllawiau newydd wedi'u cyhoeddi
- Mae trefniadau goruchwyllo gwell wedi'u cyflwyno i sicrhau bod Asesiadau Effaith yn cael eu cwblhau lle bo angen
- Mae'r Cyngor wedi cyflwyno Fframwaith Hyfforddi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant newydd i gydlynw a goruchwyllo Cynnig Hyfforddiant Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Cyngor yn fwy effeithiol.
- Mae rhaglen dreigl newydd o adolygiad asesu effaith wedi'i chyflwyno i roi adborth adeiladol i Gyfarwyddiaethau ar eu cydymffurfiaeth â phrosesau cydraddoldeb craidd.

- Mae cyfraddau cwblhau modiwlau hyfforddi allweddol Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn uchel, gan gynnwys Hyfforddiant Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant gorfodol i Reolwyr (cydymffurfiaeth o 96.69 %) a Hyfforddiant Hawliau Plant (cydymffurfiaeth o 85 %).
- Mae Rhwydwaith Cydraddoldeb y Gwasanaeth Cyhoeddus wedi'i sefydlu mewn ymateb i argymhellion y Tasglu Cydraddoldeb Hiliol ac mae pob sefydliad sector cyhoeddus yng Nghaerdydd yn datblygu rhaglen waith i sicrhau bod arfer da mewn meysydd allweddol yn dod yn arfer cyffredin.
- Gwell cyfradd ymateb i arolygon y Cyngor gan grwpiau na chlywir eu barn yn aml.
- Gwell cysylltiadau rhwng canlyniad Asesiadau Effaith a ffocws gweithgarwch ymgynghori ac ymgysylltu'r Cyngor.

Meysydd Her a Risg

- Parhau i roi pwyslais ar sicrhau bod Asesiadau Effaith yn cael eu cwblhau mewn modd amserol, i safon dda ac yn helpu i lywio gwneud penderfyniadau.
- Ymgorffori comisiynu cynhwysol yn gyson ar draws cadwyni cyflenwi.
- Cynnal momentwm ymgysylltu â chymunedau na chlywir eu barn yn aml.
- Cryfhau casglu a dadansoddi data demograffig i ddarparu gwell tystiolaeth o fuddion lles cymunedol a sicrhau atebolrwydd contractwyr.

Cryfhau Dull y Cyngor o Ddatblygu Polisi a Gwneud Penderfyniadau

Mae cynnydd da wedi'i wneud wrth ymgorffori ystyriaethau cydraddoldeb wrth wraidd polisi a gwneud penderfyniadau. Mae'r ffurflen Asesiad Effaith Sengl (AES) ddiwygiedig, sy'n ymgorffori cydraddoldeb, hawliau plant, y Gymraeg, ac ystyriaethau effaith eraill mewn un broses integredig, wedi'i hyrwyddo ledled y Cyngor, gyda chanllawiau wedi'u diweddarau yn helpu i yrru ansawdd a chysondeb. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rhoddwyd ffocws penodol ar sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb, y Gymraeg a hawliau plant yn cael eu cymhwyso'n fwy cyson ac effeithiol, gyda chefnogaeth creu swydd Swyddog Asesu Effaith pwrpasol. Mae pob Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG) bellach yn gofyn am lofnod gan Reolwr Gweithredol, gan ddarparu haen ychwanegol o sicrhau ansawdd, ac mae 96.69 % o Reolwyr Gweithredol wedi cwblhau hyfforddiant ar y broses AEG. Mae cyflwyno Traciwr Asesu Effaith Gorfforaethol yn rhoi trosolwg clir o weithgarwch asesu effaith ac mae rhaglen adolygu dreigl tri mis fesul cyfarwyddiaeth ar waith i ddarparu cymorth cyfeillion hanfodol i gyfarwyddiaethau. Mae cysylltiadau rhwng asesiadau effaith a gweithgarwch ymgysylltu hefyd wedi'u cryfhau, tra bod cydweithio drwy Rwydwaith Cydraddoldeb y Bwrdd

Gwasanaethau Cyhoeddus yn galluogi dysgu a rennir ac alinio arferion gorau ar draws gwasanaethau cyhoeddus yng Nghaerdydd.

Wrth edrych ymlaen, bydd ffocws parhaus ar ymgorffori asesiadau effaith integredig amserol ac o ansawdd da mewn fforymau gwneud penderfyniadau yn helpu i gynnal cynnydd.

Gwella Cynnig Hyfforddiant Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Cyngor

Mae cynnydd cyson wedi'i wneud o ran cryfhau cynnig hyfforddiant Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Cyngor, gyda dull mwy strwythuredig a chynhwysfawr ar waith erbyn hyn. Mae Bwrdd Hyfforddiant Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant wedi'i sefydlu i oruchwylio ac adolygu'r ddarpariaeth, gan arwain at greu modiwl hyfforddiant cydraddoldeb corfforaethol gorfodol i'r holl staff a modiwl hyfforddiant Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG) pwrpasol ar gyfer Rheolwyr Gweithredol. Mae cynnwys ychwanegol wedi'i gyflwyno neu sy'n cael ei ddatblygu, gan gynnwys hyfforddiant ar ragfarn ddarwybod, microymosodiadau, a niwroamrywiaeth, ochr yn ochr ag integreiddio egwyddorion CEDAW ar draws deunyddiau hyfforddi.

Mae monitro defnydd bellach ar waith, gyda 96.69% o Reolwyr Gweithredol yn cwblhau hyfforddiant AEG. Mae sesiynau arbenigol hefyd wedi'u cyflwyno, gyda 122 o staff yn mynychu hyfforddiant rhagfarn ddarwybod a 17 yn cwblhau sesiynau microymddygiad. Er bod y datblygiadau hyn yn gam pwysig wrth ymgorffori cydraddoldeb a chynhwysiant o fewn diwylliant sefydliadol, bydd cynyddu cyfraddau cwblhau ar gyfer yr hyfforddiant gorfodol yn ffocws allweddol ar gyfer y flwyddyn i ddod i sicrhau dealltwriaeth gyson a chymhwyso egwyddorion Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ar draws y gweithlu.



Cryfhau Llais y Dinesydd

Mae'r Cyngor wedi parhau i wneud cynnydd cryf wrth gyflawni ei Strategaeth Cyfranogiad, gyda chynnydd sylweddol mewn ymgysylltiad gan grwpiau na chlywir eu barn yn aml mewn ymgynghoriadau a phrosesau gwneud penderfyniadau. Mae'r Strategaeth, sy'n anelu at hyrwyddo cyfranogiad y cyhoedd mewn democratiaeth leol a sicrhau bod ymgysylltu yn hygyrch, yn dryloyw ac yn gynrychioladol, yn nodi camau gweithredu wedi'u targedu i gryfhau cyfranogiad ymhlith grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

Mae cymwysiadau diweddar o'r Strategaeth Cyfranogiad, megis Ymgynghoriad ar y Gyllideb 2025/26 ac Arolwg Holi Caerdydd 2024, yn dangos dull cryfach o ymgysylltu cynhwysol, methodoleg well, ac aliniad agosach ag Asesiadau Effaith Cydraddoldeb. Mae gweithredu cynnar eisoes wedi arwain at ganlyniadau cadarnhaol, gyda chyfranogiad gan grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, gan gynyddu'n sylweddol ar draws ymgynghoriadau allweddol y Cyngor:

	Holi Caerdydd		Cyllideb		Poblogaeth Caerdydd 16+ oed (Cyfrifiad 2021)	
	2018	2024	2019-20	2025-26		
	%	%	%	%	No.	%
Grwpiau Ethnig Lleafrifol	8.2	18.3	7.6	17.0	72,074	24.3
75+	2.3	6.9	3.7	7.5	23,623	8.0
Anabl	8.3	12.3	9.0	11.1	63,560	21.5
Cyfanswm yr Ymatebwyr	4,587	2,620	2,048	3,011	296,311	-

Wrth edrych ymlaen, bydd gweithredu parhaus y Strategaeth Cyfranogiad, ynghyd ag integreiddio cryfach rhwng gweithgarwch ymgysylltu a gwneud penderfyniadau, yn parhau i fod yn ganolog i sicrhau bod gan bob preswlydd lais wrth lunio dyfodol Caerdydd.

Mae mentrau wedi'u targedu hefyd yn annog cyfranogiad ehangach mewn bywyd dinesig. Mae'r rhaglen arweinyddiaeth "Take Your Place", a ddatblygwyd gyda'r Commonwealth Theatre, yn cefnogi pobl ifanc o gefndiroedd ethnig amrywiol i gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth leol, yn dilyn cynllun peilot llwyddiannus. O fewn y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, mae dulliau ymgysylltu'n cael eu hadolygu i sicrhau bod lleisiau cymunedol amrywiol yn cael eu cynrychioli, gan adeiladu ar weithgarwch drwy "South Wales Listens" a phrosiectau ymgysylltu pwrpasol.

IGwella ein Dealltwriaeth o'n Gweithlu a'n Defnyddwyr Gwasanaeth

Yn y flwyddyn gyntaf hon o'r strategaeth, mae gwaith i gryfhau casglu, dadansoddi ac adrodd data cydraddoldeb defnyddwyr gwasanaethau wedi bod yn ei gamau cynnar ac mae'n parhau i fod yn flaenoriaeth tymor hwy. Bydd sefydlu systemau cadarn ar gyfer casglu'r wybodaeth hon yn allweddol i sicrhau bod gwasanaethau yn diwallu anghenion ein cymunedau amrywiol.

Ar gyfer data'r gweithlu, mae ymgysylltu wedi'i dargedu wedi parhau i annog staff i ddiweddarau eu cofnodion personol yn gyfrinachol drwy'r Ap Gweithio i Gaerdydd, gydag ymdrechion yn canolbwyntio ar esbonio sut mae'r wybodaeth yn cael ei defnyddio. Mae adolygiad o'r holiadur ymadael a'r broses gyfweliad hefyd ar y gweill, gyda newidiadau wedi'u cynllunio ar gyfer 2025/26 i ddeall ymadawiadau gweithwyr yn well. Bydd cryfhau'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth a'r gweithlu yn ganolog i nodi bylchau, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau, a llywio dylunio gwasanaeth mwy cynhwysol yn y dyfodol.

Mabwysiadu Arferion Comisiynu a Chaffael Cynhwysol

Mae Cyngor Caerdydd wedi parhau i ymgorffori egwyddorion cydraddoldeb, gwaith teg a diogelu yn ei brosesau comisiynu a chaffael. Gofynion o'r Cod Ymarfer: Mae Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi wedi'u hintegreiddio'n llawn i weithdrefnau caffael, ac mae disgwyliadau diogelu wedi'u hymgorffori ym mhob cam o'r cylch rheoli tendr a chontractau. Mae hyn yn cynnwys defnyddio'r offeryn Asesu Diogelu Caffael yn y cam cyn tendro, cyfathrebu Polisi Diogelu'r Cyngor yn glir i bob cyflenwr, a monitro parhaus trwy amserlenni adolygu perfformiad, graddfeydd COG, ac adrodd dangosfwrdd i uwch reolwyr.

Carreg filltir arwyddocaol yn 2024/25 oedd cymeradwyo'r Polisi Caffael Cymdeithasol-Gyfrifol newydd gan y Cabinet ym mis Gorffennaf 2025. Wedi'i adeiladu o amgylch wyth amcan lles, mae'r Polisi yn aildatgan ymrwymiad y Cyngor i waith teg, cyflogaeth foesegol, a sicrhau buddion lles cymunedol trwy gontractau. Mae'n nodi disgwyliadau clir ar gyfer cyflenwyr ac yn darparu fframwaith ar gyfer gwneud y mwyaf o werth cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol gweithgarwch caffael. Bydd y gwaith hwn yn allweddol i sicrhau bod gwasanaethau a gomisiynwyd a chyflenwyr dan gontract yn cyfrannu'n gadarnhaol at uchelgeisiau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant Caerdydd. Bydd y gwaith yn parhau i gryfhau data demograffig i ddarparu tystiolaeth o effaith a sicrhau atebolrwydd ar gontractwyr.

The background of the entire page is a photograph of a library or archive shelf. The shelves are filled with numerous dark-colored binders or folders, each with a white label and a circular hole at the bottom. The image is heavily tinted with a deep purple color, creating a monochromatic effect. The perspective is slightly angled, showing the depth of the shelves.

ATODIAD A: CYNNYDD MANWL A WNAED YN ERBYN Y DPA

Amcan Cydraddoldeb 1:

Caerdydd Decach: Byddwn yn lleihau anghydraddoldeb ac yn cefnogi pawb yng Nghaerdydd i gyflawni eu potensial.

Lleihau Anghydraddoldeb a Hyrwyddo Cyfleoedd i Blant a Phobl Ifanc

Cyf DPA	DPA	Deiliad Data	Diweddariad 2024/25
EQK1.01	Canran y dysgwyr Addysg Heblaw yn yr Ysgol sy'n gadael Blwyddyn 11 sy'n pontio'n llwyddiannus o addysg statudol i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (targed 2024/25: 92 %)	Addysg a Dysgu Gydol Oes	2023/24 – 65 % 2024/25 - nid yw'r data ar gael
EQK1.02	Canran y plant sy'n derbyn gofal ar ôl gadael Blwyddyn 11 sy'n pontio'n llwyddiannus o addysg statudol i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (targed 2024/25: 92 %)	Addysg a Dysgu Gydol Oes	2023/24 – 98.2 % 2024/25 - nid yw'r data ar gael
EQK1.03	Nifer y lleoedd ADY ffurfiol ychwanegol a ddarperir ar draws y ddinas (Targed 2024/25: 132)	Addysg a Dysgu Gydol Oes	2023/24 – 120 lle 2024/25 - nid yw'r data ar gael
